# Y Pwyllgor Cyllid

# Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

## Cefndir a diben

**01.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 gan ehangu cwmpas yr eithriadau rhag y cyfraddau sy'n gymwys i drafodiad cyfradd uwch.

**02.** Mae Atodlen 5 (Trafodion Eiddo Preswyl Cyfraddau Uwch) i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn nodi'r rheolau ar gyfer pennu pan fo caffael prif fuddiant (neu fuddiant a ystyrir i fod yn brif fuddiant) yn drafodiad eiddo preswyl cyfradd uwch. Mae'r diwygiad technegol i Atodlen 5 a wneir gan y Rheoliadau hyn yn darparu pan fo cyplau priod (yn cynnwys personau mewn partneriaeth sifil) yn caffael buddiannau newydd neu fuddiannau ychwanegol yn eu prif breswylfa gyfredol, nid yw trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfradd uwch hyd yn oed lle bo un priod yn flaenorol heb fuddiant llesiannol yn y prif breswylfa honno. Mae'r newid technegol hwn i sicrhau y cymhwysir y rheolau cyfraddau uwch yn gyson i gyplau priod ac o fewn Atodlen 5.

## Y weithdrefn

**03.** Cadarnhaol.

## Craffu ar y rhinweddau

**04.** Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Amcanion polisi

**05. Datganiad ar y bwriad polisi**

06. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y bwriad polisi ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

07. Mae'r rheoliad hwn yn diwygio Atodlen 5 i'r Ddeddf sy'n ymwneud â chyfraddau uwch ar eiddo ychwanegol. Cyflwynwyd deddfwriaeth ar gyfer cyfraddau uwch **yng Nghyfnod 2** ac o ganlyniad **nid yw wedi'i chynnwys** yn y datganiad. **Fodd bynnag, mae Adran 24(11) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn galluogi** Gweinidogion Cymru i ddiwygio Atodlen 5 drwy reoliadau.

08. **Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid**

09. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn ymwneud â'r rheoliad gan y cyflwynwyd deddfwriaeth berthnasol yng Nghyfnod 2.

10. **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

*Ymgynghoriad y Cynulliad*

11. **Ni wnaed unrhyw sylwadau**.

*Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

12. **Ni wnaed unrhyw sylwadau**.

**Rheoliadau yn yr Alban**

13. **Nid oes gwahaniaethau nodedig** rhwng y rheoliadau. Mae Deddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Diwygio) (Yr Alban) 2016 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyplau priod a phartneriaid sifil yn ymwneud â'r eithriadau ar gyfer trafodiadau eiddo ychwanegol.

**Rheoliadau'r DU**

14. **Dim gwahaniaethau nodedig** rhwng y rheoliadau. Fe wnaeth Llywodraeth y DU gynnwys darpariaethau yn ymwneud â chyplau priod a phartneriaid sifil ar gyfer cyfraddau uwch i eiddo ychwanegol yn Adran 128 o Ddeddf Cyllid 2016.

## Ymateb y Llywodraeth

15. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau o dan ‘craffu ar rinweddau’.

16. Mae Cyllideb yr Hydref 2017 yn diwygio'r rheolau trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch sy'n cyfateb i dreth dir y dreth stamp. Yn dilyn cynnwys y diwygiad a ddarperir gan y rheoliadau hyn, dylai effaith y newidiadau hyn ddarparu triniaeth debyg o ran treth dir y dreth stamp i'r hyn a ddarperir gan baragraffau 7 ac 16 o Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Mae'r Bil Cyllid yn gwneud amryw o ddiwygiadau eraill i reolau treth dir y dreth stamp, sy'n cyd-fynd yn fras â rheolau'r dreth trafodiadau tir.

17. Mae rheolau'r dreth trafodiadau tir ac adeiladau yn wahanol i reolau'r dreth trafodiadau tir ac efallai nad ydynt yn cael yr un effaith.

## Safbwynt y Pwyllgor

18. Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.